Cyllid & Tollau EM

Hoffech chi roi eich ad-daliad treth i elusen?

Os oes arnom ni dreth i chi, gallwch roi eich ad-daliad i elusen o'ch dewis chi drwy gwblhau'r ffurflen fer a welir trosodd. Mae'n ffordd hawdd i gyfrannu a gallwch ddefnyddio Rhodd Cymorth i gynyddu gwerth eich rhodd.

Gwneir hyn drwy gynllun SA Donate ac mae miloedd o elusennau, bach a mawr yn cymryd rhan. Mae Cod Elusen arbennig gan bob un a bydd angen hwn arnoch er mwyn cwblhau'r ffurflen.



Ewch i www.hmrc.gov.uk/charities/charities-search.htm neu gallwch ein ffonio i gael cod eich elusen.

Unwaith y byddwch wedi cael y cod, yr unig beth sy'n rhaid i chi ei wneud yw cwblhau'r ffurflen a'i dychwelyd atom gyda'ch Ffurflen Dreth. Fe wnawn ni'r gweddill ar eich rhan.

Gallwch gyfrannu'r cyfan, neu dim ond rhan o'ch ad-daliad. Does dim angen i chi gyfrifo'ch bil treth i gwblhau'r ffurflen - os na wyddoch faint sydd arnom i chi, gallwch naill ai ddweud wrthym am anfon y swm llawn, neu nodi'r uchafswm yr hoffech ei gyfrannu. Ni allwn byth anfon fwy na chyfanswm eich ad-daliad. Darllenwch dudalen TRG 19 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth cyn cwblhau'r ffurflen.

Gallwch ddefnyddio Rhodd Cymorth er mwyn i'r elusen hawlio'n ôl y dreth a dalwyd gennych yn barod ar y rhodd. Mae Rhodd Cymorth yn cynyddu gwerth eich rhodd gan 25% - heb unrhyw gost i chi. Rhaid i chi dalu digon o Dreth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf yn y flwyddyn dreth hon i gwrdd â'r dreth y bydd eich elusen yn ei hawlio'n ôl oddi wrthym.

I ddarganfod mwy am SA Donate a Rhodd Cymorth ewch i www.hmrc.gov.uk/charities/faq.htm

Cyllid & Tollau EM

Cyfrannu eich ad-daliad treth i elusen

Y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2007 i 5 Ebrill 2008

1 Eich enw

2 Eich cyfeirnod trethdalwr unigryw (UTR) – *o dudalen TR1 eich Ffurflen Dreth*

3 Rhowch 'X' yn y blwch os hoffech gyfrannu eich holl ad-daliad i elusen

4 Os ydych am gyfrannu cyfran o'ch ad-daliad yn unig i elusen, nodwch yr uchafswm y gallwn anfon

£ . 0 0

5 Nodwch god yr elusen – *gallwch gael hwn o **www.hmrc.gov.uk/charities/charities-search.htm** neu gallwch ein ffonio ni*

G

6 Rhowch 'X' yn y blwch os ydych am roi'r ad-daliad trwy Rodd Cymorth. Bydd yr elusen yn derbyn Treth Incwm ar y gyfradd sylfaenol ar eich rhodd

7 Rhowch 'X' yn y blwch os gallwn roi eich enw a'ch cyfeiriad i'r elusen pan fyddwn yn eu hysbysu ynglŷn â'ch cyfraniad

Datganiad

Llofnodwch a dyddiwch y datganiad hwn.

Cadarnhaf y talaf Dreth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf yn 2008-09 a fydd o leiaf gymaint â'r dreth i'w had-dalu i'r elusen a enwebwyd gennyf.

Llofnod

Dyddiad *DD MM BBBB*